Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Prentisiaethau yn Therapi Harddwch

Rhif y Fframwaith: FR03870 **Rhifyn:** 3 **Dyddiad:** 13/06/2016

Cytunwyd ar gynnwys y Fframwaith hwn gan Skills Active (Habia) ac maent wedi'i gyhoeddi.

TROSOLWG:

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno darpariaeth hyfforddiant Lefelau 2 a 3 o fewn y sector Gwallt a Harddwch. Os cwblheir y ddarpariaeth, caiff cymhwyster wedi'i ddynodi/reoleiddio ei ddyfarnu.

Mae Prentisiaeth Lefel 2 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys therapydd harddwch iau neu ymgynghorydd gofal croen a cholur.

Mae Prentisiaeth Lefel 3 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys therapydd harddwch, therapydd electrolysis, masseur/masseuse neu therapydd coluro.

DEILLIANNAU GORFODOL

Bydd y corff dyfarnu priodol yn gwirio sut yr asesir cyflawni'r cymwysterau hyn. Rhaid i unigolion gwblhau:

- Naill ai gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth neu gymhwyster sy'n cyfuno'r ddwy elfen o un o'r llwybrau canlynol
- Sgiliau Hanfodol a'r Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth a nodir isod

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 2:
Llwybr 1: Therapi Harddwch - Cyffredinol
Llwybr 2: Therapi Harddwch - Colur

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 3:
Llwybr 1: Llwybr 2: Therapi Harddwch - Colur

Sgiliau Hanfodol Cymru:
Lefel 2 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 1, Lefel Gyfathrebu 1, Lefel TGCh 1

Lefel 3 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 2, Lefel Gyfathrebu 2, Lefel TGCh 2

Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a'r broses sefydlu sylfaenol sy'n ymwneud â Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth yn y gweithle yn ddewisol.

RHAGOR O WYBODAETH

I weld cynnwys y Fframwaith hwn a'r fanyleb lawn, cysylltwch: Skills Active (Habia).